Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Tir Morfa
# Ffordd Derwen
# Y Rhyl
# Sir Ddinbych
# LL18 2RN

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Tir Morfa

Mae Ysgol Tir Morfa yn ysgol ddydd arbennig sydd wedi'i lleoli ar draws dau safle yn Y Rhyl ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, neu sydd wrthi'n cael asesiad statudol.

Mae gan ddisgyblion yn yr ysgol amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistig, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac anawsterau dysgu cymedrol, difrifol a dwys.

Mae 136 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae ychydig llai na 50% ohonynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae bron pob un o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith.

Nod yr ysgol yw darparu amgylchedd dysgu hapus a diogel i feithrin disgyblion mewn medrau cyfathrebu, annibyniaeth a bywyd trwy gydol eu hoes.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2011. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Ebrill 2017.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Tir Morfa yn ysgol ddydd arbennig sy’n rhoi ffocws mawr ar ddarparu profiad dysgu gofalgar a meithringar ar gyfer pob un o’i disgyblion.  Mae staff, llywodraethwyr a disgyblion yn arddel arwyddair yr ysgol yn llawn, sef ‘Dysgu byw, byw i ddysgu’.

Dros gyfnod, mewn perthynas â’u hanghenion a’u galluoedd, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn datblygu eu medrau annibyniaeth.  Mae ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o gwmpas dau safle’r ysgol fel arfer yn eithriadol o dda.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol, agos a pharchus gyda disgyblion.  Mae athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth am anghenion disgyblion a’r meysydd i’w datblygu yn dda wrth gynllunio profiadau dysgu ysgogol.  Mae’r cwricwlwm yn adeiladu’n llwyddiannus ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion.

Mae arweinwyr yn sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion, gan roi iddynt y medrau angenrheidiol i fod mor hapus, diogel ac annibynnol ag y bo modd.  Mae arweinwyr yn rhoi ffocws clir ar wella ansawdd yr addysgu a’r dysgu a meithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Datblygu'r cwricwlwm er mwyn ymestyn ystod yr achrediad a gynigir, yn enwedig ar gyfer y disgyblion mwy abl

A2 Datblygu dulliau cyson o ddefnyddio strategaethau cyfathrebu cytûn ar draws yr ysgol

A3 Mynd i'r afael â diogeledd ar y safle a materion lles a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A4 Cryfhau gweithdrefnau hunanarfarnu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â hysbysu rhieni am gynnydd eu plant, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn Ysgol Tir Morfa yn gwneud cynnydd cryf wrth fodloni eu targedau dysgu a chyfathrebu unigol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn effeithiol ac yn mwynhau sgwrsio a hiwmor. Mae eu medrau cymdeithasol hyfedr yn eu galluogi i greu awyrgylch cynnes yng Nghaffi Morfa ar y safle, lle maent yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid o ansawdd da.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio dyfeisiau electronig, arwyddion a symbolau i gefnogi eu cyfathrebu. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn eu defnyddio mor effeithiol ag y gallent.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mynegi eu hunain trwy ddrama a cherddoriaeth. Maent yn canu a dawnsio yn yr eisteddfod ac yn perfformio mewn cyngherddau ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ennill medrau cymdeithasol datblygedig. Maent yn cynorthwyo'i gilydd yn frwdfrydig ac yn aml yn awyddus i weithio ar dasgau gyda'u cyfoedion, mewn parau a grwpiau bach. Er enghraifft, mae disgyblion yn cynllunio testun ar y cyd ar gyfer cyflwyniad ac wedyn yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys creu barddoniaeth a ystyriwyd yn ofalus. Mae disgyblion hŷn a mwy abl yn creu darnau estynedig o waith ac yn defnyddio atalnodi a pharagraffau'n dda i gynnwys mwy o ystyr yn eu hysgrifennu. Maent yn mwynhau darllen, yn dod o hyd i ffeithiau'n dda ac yn siarad yn hyderus am eu hoff lyfrau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson â'u medrau rhifiadol, fel delio ag arian, mesur a phwyso. Mae disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn i siopa am gynhwysion i baratoi bwyd yn y caffi a phrynu blodau ar gyfer y siop flodau ar-lein, sef Posies. Mae disgyblion sy'n gweithio yn y mentrau hyn yn ymddwyn mewn modd aeddfed sy'n briodol i'r amgylchedd gwaith. Datblygant fedrau gwerthfawr sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer eu dyfodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn magu hyder wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a gallant ddod o hyd i ffeiliau a storio gwaith ar gyfer y wers nesaf. Nid ydynt bob amser yn defnyddio eu medrau TGCh yn ddigon da ar draws y cwricwlwm i gefnogi eu dysgu. Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn defnyddio TGCh i weithio switshis ac archwilio sut gallant achosi a chyflawni newid.

Mae disgyblion yn mynegi eu hunain yn greadigol gyda gwaith crefftus fel modelau, cerfluniau a murluniau. Maent yn falch o'r arddangosfeydd deniadol o gwmpas yr ysgol a wnaed gydag arlunwyr ymweliadol. Mewn un dosbarth, i gefnogi eu dysgu ar gysawd yr haul, maent yn adeiladu modelau 2D o gysawd yr haul yn y dosbarth a modelau 3D ar dir yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg sylfaenol yn dda. Maent yn defnyddio'r ymadroddion y maent wedi eu dysgu yn ddigymell yn y dosbarth i ofyn ac ateb cwestiynau.

Mae disgyblion yn ennill ystod gyfyng o gymwysterau achrededig i ddangos tystiolaeth o'u dysgu.

Dros gyfnod, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol wrth ddatblygu eu medrau annibyniaeth. Maent yn deall ynglŷn â chadw eu hunain yn ddiogel yn eu cartref ac mewn lleoedd cyhoeddus fel y parc. Mae rhai disgyblion yn dysgu teithio'n annibynnol ar gludiant cyhoeddus i'w lleoliadau gwaith.

Mae disgyblion hŷn yn ennill medrau gwerthfawr o'u lleoliadau profiad gwaith. Maent yn ymateb yn aeddfed i'r cymorth a ddarperir ac mae lleiafrif o ddisgyblion yn mynychu gwaith heb gefnogaeth, mewn busnesau lleol, fel arlwyo, manwerthu ac adeiladu, yn y pen draw. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu fyd gwaith.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad cyffredinol dros gyfnod oherwydd yr amrywiaeth eang yn anghenion addysgol arbennig disgyblion. Nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng perfformiad yr holl ddisgyblion a pherfformiad bechgyn a merched, y rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rheiny sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan bron bob un o'r disgyblion yn Ysgol Tir Morfa safonau lles uchel. Maent yn teimlo'n ddiogel tra byddant yn mynychu'r ysgol a phrin iawn yw'r achosion o fwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod at bwy i droi os byddant yn poeni neu'n gofidio. Ar draws dau safle'r ysgol, mae disgyblion yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol a pharchus iawn gyda staff. Mae hon yn nodwedd gref iawn yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch at ei gilydd a staff. Maent yn ffurfio perthnasoedd ymddiriedus ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y cynnydd a wna llawer ohonynt, yn enwedig o ran magu eu hunanhyder a'u gwydnwch.

Mae disgyblion yn elwa ar y cyfleoedd da a gynigir i ddysgu am gadw'n heini. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r offer chwarae yn yr awyr agored yn hyderus yn ystod amser cinio ac amser egwyl. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn mynychu clybiau ar ôl yr ysgol ddwywaith yr wythnos ar gyfer pêl-droed a dawns. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r gweithgareddau ar y safle ac yn y gymuned i ddatblygu eu hiechyd a'u ffitrwydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r ganolfan hamdden leol ar gyfer gweithgareddau fel rymba dŵr, yn mwynhau beicio ac yn ymgymryd â gweithgareddau garddio ar y safle ac yn nhŷ Nant Clwyd yn Rhuthun.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o hylendid sylfaenol a chadw'n iach. Maent yn ennill medrau defnyddiol mewn sut i baratoi bwydydd ffres iddyn nhw eu hunain, y mae rhai o'r bwydydd wedi cael eu tyfu yng ngardd yr ysgol.

Dros gyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir. Maent yn ymateb yn effeithiol i'r staff cymwynasgar sy'n arddangos ymddygiad priodol trwy gydol y diwrnod ysgol. Mae ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o gwmpas dau safle'r ysgol fel arfer yn eithriadol o dda. Mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'u hymddygiad eu hunain ac yn dysgu rheoli eu hemosiynau'n dda. Maent yn gwerthfawrogi Barney, sef y ci therapi ar y safle, sy'n cefnogi eu datblygiad emosiynol. Mae llawer o ddisgyblion yn hapus, yn gwrtais ac yn hyderus ac yn mwynhau rhyngweithio â'i gilydd a staff yn y dosbarth ac yn ystod amseroedd egwyl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig yn eu dysgu ac maent yn awyddus i rannu a thrafod eu gwaith gyda staff ac ymwelwyr. Yn gyffredinol, maent yn mynd ati'n gyflym i weithio, yn canolbwyntio'n dda wrth ddilyn cyfarwyddiadau, ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd. Mae disgyblion yn falch o'u gwaith ac yn amlwg yn frwd dros gymryd rhan ym mwyafrif y gweithgareddau yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu, ac yn meithrin y medrau hyn yn llwyddiannus wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn eithriadol o dda i ethos gofalgar yr ysgol. Mae hyn yn amlwg iawn yn y ffordd y maent yn trin ei gilydd ac yn cymryd cyfrifoldeb am gynorthwyo eu cyfoedion, fel disgyblion hŷn yn darllen i ddisgyblion iau. At ei gilydd, mae'r gyfradd presenoldeb yn uchel ac yn adlewyrchu mwynhad disgyblion o'r profiadau dysgu a'r cyfeillgarwch a gefnogir gan yr ysgol. Mae'r gostyngiad yn yr amser a gollir trwy waharddiadau yn sicrhau bod disgyblion yn yr ysgol ac yn barod i ddysgu.

Mae gwaith y cyngor ysgol yn datblygu'n dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd disgyblion yn yr ysgol. Er enghraifft, codwyd mater gydag aelodau'r cyngor ysgol gan ddisgyblion sy'n mynychu safle Ffordd Grange ynglŷn â'r anghysondeb o ran gwisgo gwisgoedd ysgol rhwng y ddau safle. Trafododd aelodau'r cyngor ysgol y mater yn frwd ac fe wnaethant allu cyflwyno dadleuon gwybodus o blaid ac yn erbyn y pryderon a godwyd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd materion dinasyddiaeth, cydraddoldeb ac ecoleg. Maent yn gweithio tuag at Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau. Mae eu dysgu yn eu helpu i ddysgu parchu a derbyn barn pobl eraill.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan, ac yn gweddu'n dda i anghenion dysgu'r disgyblion.

Mae bron pob un o'r staff yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol, agos a pharchus gyda disgyblion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rheoli ymddygiad yn effeithiol ac yn sensitif. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gweithio meithringar a chadarnhaol. Mae ystafelloedd dosbarth yn llawn o waith disgyblion a ffotograffau o gyflawniadau, ac maent yn dathlu llwyddiannau disgyblion.

Mae athrawon yn llunio cynlluniau a chynlluniau gwaith sy'n briodol fanwl, ac yn rhoi ystyriaeth dda i waith blaenorol, anghenion a datblygiad medrau disgyblion. Caiff targedau unigol ar gyfer disgyblion neu grwpiau bach eu nodi, ac mae staff cymorth ac athrawon yn llwyddo i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion a meysydd i'w datblygu eu disgyblion yn llwyddiannus wrth gynllunio gweithgareddau a thasgau. Maent hefyd yn gofyn cwestiynau sy'n briodol heriol i alluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da. Maent yn canmol a chydnabod ymdrech disgyblion ac yn rhoi adborth defnyddiol ar sut i wella.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu ystod ysgogol o brofiadau dysgu i herio disgyblion a datblygu eu diddordebau. Yn ddiweddar, mae wedi mireinio ei dull o ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i wella medrau gweithle. Mae Caffi Morfa a siop flodau Posies, sy'n agored i'r cyhoedd, yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau mewn rhifedd a chyfathrebu. Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth o gyrsiau achrededig sydd ar gael i'r disgyblion mwyaf abl yn rhy gyfyng.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn gwneud defnydd dychmygus o'r ardaloedd yn yr awyr agored, fel y gerddi llysiau a pherlysiau sy'n cael gofal da, i gefnogi dysgu disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhif i ddatrys problemau bob dydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn mesur hyd pren sydd ei angen i wneud gwelyau blodau uchel lle maent yn plannu blodau i'w gwerthu yn y siop. Trwy'r rhain ac amrywiaeth eang o brofiadau eraill addas, mae'r ysgol yn datblygu medrau annibyniaeth disgyblion. Pan fo'n briodol, caiff disgyblion ôl-16 eu hannog i ddefnyddio apiau amserlenni bysiau ar eu ffôn er mwyn datblygu'r medrau i deithio'n annibynnol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn briodol. Er enghraifft, mae staff yn cyfarch disgyblion trwy ddefnyddio Cymraeg sylfaenol o gwmpas yr ysgol, yn cynnal eisteddfod flynyddol ac yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen.

Mae ci'r ysgol, sef Barney, yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu buddiol ar gyfer disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarch disgyblion yn y bore wrth iddynt gyrraedd, eu cysuro pan fyddant yn drist neu'n bryderus a helpu disgyblion i ddysgu sut i ofalu am anifail.

Ceir dull cydlynus o ddatblygu medrau disgyblion. Er enghraifft, mae staff a therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion ag anghenion cyfathrebu. Mae trefniadau priodol ar waith i hyfforddi staff mewn defnyddio dyfeisiau i gefnogi cyfathrebu ac mewn defnyddio arwyddion a symbolau. Fodd bynnag, mae anghysondebau o ran defnyddio strategaethau cyfathrebu cytûn ar draws yr ysgol.

Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau digidol. Ar safle Ffordd Grange, mae disgyblion yn hyderus pan fyddant yn creu animeiddiad o olygfeydd o Romeo a Juliet.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu creadigrwydd disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Yn ddiweddar, cymerodd yr ysgol ran mewn cystadleuaeth ffotograffiaeth, sef 'Fy Nghymru i' '(My Wales'). Cymerodd pob grŵp o ddisgyblion ran yn y gystadleuaeth ac fe gaiff y cynigion o ansawdd uchel eu harddangos yn falch o gwmpas yr ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae partneriaeth yr ysgol â rhieni yn gryfder arbennig. Mae'r perthnasoedd hynod werthfawr yn galluogi'r ysgol i gyflawni golwg gyfannol ar bob disgybl a sicrhau eu bod yn cael y cymorth academaidd priodol, ac o ran eu lles neu'u hiechyd, yn yr ysgol a gartref.

Mae staff yn darparu cymorth ac arweiniad priodol i helpu disgyblion i oresgyn heriau sy'n eu rhwystro rhag dysgu. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda theuluoedd i'w helpu i gael cymorth ar gyfer lles emosiynol disgyblion, sy'n arwain at bresenoldeb gwell.

Mae'r ysgol yn helpu rhieni yn effeithiol iawn i gefnogi disgyblion i barhau â'u dysgu gartref gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau. Pan fo'n briodol, mae'n cynnig hyfforddiant gartref, fel sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar ac ymlacio, i helpu goresgyn problemau penodol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn gyda'i phartneriaid i ddatblygu darpariaeth a chymorth i fodloni anghenion iechyd a dysgu disgyblion. Mae'n cynnal clinigau asesu rheolaidd a defnyddiol ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid a therapyddion. Mae hyn yn gyfle hawdd i rieni gael cyngor a chymorth yn yr ysgol, ac yn tarfu cyn lleied â phosibl ar addysg y disgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol sy'n canolbwyntio ar y disgyblion, a nosweithiau rhieni, galwadau ffôn a chylchlythyrau rheolaidd, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni. Mae defnydd yr ysgol o gyfathrebu digidol a chyfryngau cymdeithasol yn ddatblygedig iawn ac yn nodwedd gref iawn o'i gwaith, gan alluogi staff i rannu llwyddiannau disgyblion yn uniongyrchol â'r cartref.

Mae'r ysgol yn amgylchedd digynnwrf a reolir yn dda. Mae staff yn delio'n brydlon ac yn effeithiol iawn gydag achosion o ymddygiad anodd. Maent yn meithrin ethos cryf o anogaeth a chymorth, lle caiff disgyblion eu hannog i fod yn ystyriol o bobl eraill a meddwl am ganlyniadau eu gweithredoedd.

Mae gan yr ysgol amrywiaeth o ddulliau hynod briodol i fonitro cynnydd a lles disgyblion. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd yn dda i lywio cynllunio ar gyfer camau nesaf disgyblion, yn olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr yn unol â'u targedau penodol, a mynd ati i gynnwys rhieni a disgyblion yn y broses. Ceir tystiolaeth gref fod monitro ac olrhain ysgol gyfan yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, gan fod y dulliau hyn yn newydd, nid yw llawer o'r data yn galluogi cymharu effeithiol â blynyddoedd diwethaf. O ran monitro ymddygiad disgyblion, ceir data cynhwysfawr i gadarnhau bod yr ysgol, dros flynyddoedd lawer, wedi lleihau nifer yr achosion o ymddygiad heriol gan ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. Mae'n datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae darparu llain lysiau lle mae disgyblion yn tyfu llysiau, a chaffi'r ysgol lle maent yn paratoi bwyd, yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o'r berthynas rhwng tyfu bwyd, a'i

fwyta. Ceir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon a gweithgareddau, fel beicio, gymnasteg a gemau, yn ystod y diwrnod ysgol ac mewn clybiau ar ôl yr ysgol, lle maent yn dysgu dawnsio stryd, celf a phêl-droed. Mae aros mewn canolfan breswyl yn galluogi lleiafrif o ddisgyblion i fwynhau gweithgareddau cyffrous yn yr awyr agored, fel canŵio a dringo.

Mae Caffi Morfa, Posies a Re-cycles, sef y siop atgyweirio beiciau, yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu medrau gwaith a bywyd hanfodol i'w paratoi ar gyfer eu dyfodol. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda'i gilydd, yn cyllidebu ac yn cyfathrebu â'r cyhoedd.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn nodwedd dra datblygedig yn yr ysgol. Mae cydweithio da yn helpu hyrwyddo diogelwch personol disgyblion. Er enghraifft, mae'r heddwas lleol yn arwain dosbarthiadau ar gyfeillgarwch priodol, diogelwch ar y rhyngrwyd ac ymddygiadau cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn yn fuddiol iawn o ran cynorthwyo disgyblion sydd mewn perygl y bydd rhywun yn cam-fanteisio arnynt.

Caiff disgyblion eu hannog i fyfyrio ar eu profiadau mewn sesiynau rheolaidd ar ymwybyddiaeth ofalgar. Mae gwasanaethau'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gydnabod a dathlu llwyddiannau ei gilydd.

Mae'r ysgol yn mynd ati i annog disgyblion i fod yn greadigol a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu llythyrau at ofodwyr ac yn perfformio yn eisteddfod yr ysgol. Ceir cyfleoedd rheolaidd iddynt wella eu dealltwriaeth o Gymru a'r gymuned ehangach.

Yn gyffredinol, mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni gofynion. Fodd bynnag, rhannwyd pryderon am agweddau ar drefniadau'r ysgol ar gyfer lles a diogelwch ar y safle yn ystod yr ymweliad.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae cymuned yr ysgol yn elwa ar arweinyddiaeth ysbrydoledig y pennaeth. Gan gael cymorth medrus gan y pennaeth cynorthwyol, mae'n mynegi gweledigaeth bwrpasol ac uchelgeisiol i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel a pherthnasol ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae ei hymdrech i sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion, gan roi iddynt y medrau sy'n angenrheidiol i fod yn hapus, yn ddiogel ac mor annibynnol ag y bo modd, yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae staff, llywodraethwyr a disgyblion yn arddel arwyddair yr ysgol yn llawn, sef 'Dysgu byw, byw i ddysgu'.

Mewn cyfnod cymharol fyr o dan yr arweinyddiaeth newydd, mae safonau lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu wedi gwella, a bu gwelliant amlwg yng nghysondeb asesiadau athrawon, cynllunio a gallu arweinwyr canol. Mae'r pennaeth wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gweithgareddau ysgol gyfan buddiol i wella lles staff, fel sesiynau hyfforddiant cylchol ac ymwybyddiaeth ofalgar ar ôl yr ysgol. O ganlyniad, mae'r dyddiau a gollir yn sgil absenoldeb staff wedi gostwng yn sylweddol.

Mae arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd wythnosol sy'n canolbwyntio ar faterion pwysig a pherthnasol yr ysgol. Mae pwyntiau gweithredu o'r cyfarfodydd hyn a'r rheiny sy'n gyfrifol amdanynt yn glir. Mae cyfarfodydd rheolwyr llinell rhwng arweinwyr a'u timau

yn darparu cyfleoedd defnyddiol i staff fyfyrio a rhannu arfer dda. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn gyson a gosodir targedau addas sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau ysgol gyfan. Mae disgwyliadau pob un o'r staff yn uchel, ac fe gaiff unrhyw danberfformio ei herio'n sensitif ond yn drylwyr.

Mae'r corff llywodraethol yn rhoi cefnogaeth gref a da i'r pennaeth â'i hymdrech i wella'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac maent yn darparu her addas i sicrhau'r ddarpariaeth a'r deilliannau gorau posibl ar gyfer y disgyblion a'r staff.

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn datblygu'n briodol. Mae gan yr ysgol galendr sicrhau ansawdd clir a realistig er mwyn monitro effeithiolrwydd ei gwaith. Mae arweinwyr yn casglu tystiolaeth uniongyrchol werthfawr ar ansawdd yr addysgu trwy weithgareddau monitro rheolaidd. Er enghraifft, maent yn cynnal teithiau dysgu buddiol, yn arsylwi gwersi ac yn adolygu gwaith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwneud digon o ddefnydd o'r dystiolaeth o'r gweithgareddau hyn ar hyn o bryd i arfarnu safonau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn casglu barn disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr ar agweddau ar waith yr ysgol yn rheolaidd. Mae'r pennaeth wedi gwneud defnydd cynhyrchiol o'r canfyddiadau o holiaduron staff er mwyn cynllunio ar gyfer gwella. Mae trefniadau ar gyfer ymateb i ganfyddiadau gan randdeiliaid eraill yn datblygu'n briodol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn onest am waith yr ysgol ac yn defnyddio'r ystod o dystiolaeth sydd ar gael yn dda i nodi blaenoriaethau ysgol gyfan addas a phwysig yng nghynllun gwella defnyddiol yr ysgol. Mae camau gweithredu, cyfrifoldebau a dyddiadau cwblhau yn glir ac fe gaiff cynnydd ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n gryf iawn ar ddatblygiad proffesiynol unigol ac ysgol gyfan ac maent yn hynod gefnogol i staff sy'n dyheu am wella eu perfformiad eu hunain. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i staff ar bob lefel gael hyfforddiant a phrofiad mewn agweddau pwysig amrywiol ar addysgeg ac arweinyddiaeth. Mae'r ysgol yn cynnal rhaglen hyfforddi wythnosol fuddiol a thra ystyriol ar gyfer staff sydd wedi'i thargedu at feysydd penodol o gynllun gwella'r ysgol. Mae hyfforddiant ysgol gyfan wedi cael effaith sylweddol ar wella meysydd fel olrhain safonau disgyblion, rheoli ymddygiad a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg.

Mae'r arweinyddiaeth newydd wedi llwyddo i ddileu diffyg yn y gyllideb. Mae arweinwyr wedi bod yn greadigol wrth chwilio am adnoddau allanol. Maent yn parhau i fuddsoddi'n strategol mewn arbenigedd a phrofiad staff er mwyn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion. Caiff athrawon a staff cymorth eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2018